# City and County of Swansea
# Dinas a Sir Abertawe

## Datganiad Cyllideb Addysg 2013/14

### Adran 52 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998

# Datganiad Cyllideb Blynyddol yr ALl 2013/2014

Mae’n ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALl), dan Adran 52 Deddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, baratoi Datganiad Cyllideb bob blwyddyn ariannol.

Nodir fformat y Datganiad Cyllideb yn Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002. Rhaid paratoi pob Datganiad Cyllideb mewn tair rhan fel a ganlyn:

**Rhan 1** **yn cynnwys manylion am wariant a gynlluniwyd ar gyfer ysgolion unigol**

**Rhan 2** **gwybodaeth mewn perthynas â’r fethodoleg ar gyfer pennu cyfran ysgolion o’r gyllideb**

**Rhan 3** **gwybodaeth mewn perthynas â chyfran pob un o ysgolion yr awdurdod o’r gyllideb**

Rhaid rhoi copi o’r Datganiad Cyllideb i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir yn yr Awdurdod, a rhaid sicrhau ei fod ar gael i rieni a phobl eraill gyfeirio ato ar bob adeg resymol heb dâl.

*Kelly Small*
*Swyddog Cyllid a Gwybodaeth Ysgolion*
*Adran Addysg*
*Canolfan Ddinesig*
*Abertawe*
*SA1 3SN*

*Ffôn: 01792 636686*

| (1) | (2) | (3) | (4) | (5) | (6) | (7) | (8) | (9) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | **Rhif Cyfeirnod swyddogol** | **agor/cau ysgol C/O** | **Dyddiad agor/cau** | **Nifer y disgyblion** | **CYFRAN O'R GYLLIDEB** | | **Cyllideb Tybiannol A.A.A.** | **Cronfeydd nid ISB sy'n syrthio I'r ysgolion** |
| | | | | | **Yr Ysgol £k** | **Y Disgybl £** | **£k** | **£k** |
| **Ysgolion cynradd** | | | | | | | | |
| Brynhyfryd Junior School | 2003 | | | 211 | 689 | 3,261 | 77 | 0 |
| Brynhyfryd Infants School | 2005 | | | 213 | 762 | 3,581 | 76 | 160 |
| Brynmill Primary School | 2006 | | | 305 | 948 | 3,114 | 63 | 104 |
| Cadle Primary School | 2008 | | | 339 | 1,236 | 3,650 | 282 | 135 |
| Cwmrhydyceirw Primary School | 2014 | | | 438 | 1,285 | 2,935 | 115 | 161 |
| Danygraig Primary School | 2017 | | | 260 | 1,042 | 4,016 | 293 | 92 |
| Gendros Primary School | 2021 | | | 289 | 923 | 3,194 | 95 | 109 |
| Glais Primary School | 2023 | | | 103 | 394 | 3,833 | 16 | 35 |
| Grange Primary School | 2027 | | | 221 | 784 | 3,540 | 131 | 78 |
| Hafod Primary School | 2032 | | | 224 | 803 | 3,590 | 83 | 83 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las | 2036 | | | 500 | 1,383 | 2,768 | 93 | 198 |
| Morriston Primary School | 2040 | | | 200 | 928 | 4,645 | 333 | 73 |
| Oystermouth Primary School | 2042 | | | 218 | 681 | 3,131 | 31 | 81 |
| Pentrechwyth Primary School | 2048 | | | 106 | 482 | 4,567 | 70 | 35 |
| Plasmarl Primary School | 2051 | | | 133 | 553 | 4,150 | 64 | 56 |
| Sketty Primary School | 2054 | | | 458 | 1,380 | 3,015 | 110 | 155 |
| St Helen's Primary School | 2055 | | | 174 | 666 | 3,824 | 93 | 57 |
| Terrace Road Primary School | 2059 | | | 230 | 827 | 3,604 | 109 | 84 |
| Townhill Community Primary School | 2063 | | | 439 | 1,539 | 3,508 | 365 | 161 |
| Waunarlwydd Primary School | 2065 | | | 267 | 851 | 3,191 | 97 | 95 |
| Waun Wen Primary School | 2067 | | | 160 | 594 | 3,704 | 75 | 68 |
| Clwyd Community Primary School | 2069 | | | 256 | 1,247 | 4,878 | 508 | 85 |
| Ynystawe Primary School | 2071 | | | 188 | 650 | 3,464 | 58 | 64 |
| Clase Primary School | 2073 | | | 197 | 1,099 | 5,577 | 555 | 72 |
| Portmead Primary School | 2075 | | | 200 | 703 | 3,524 | 63 | 74 |
| Mayals Primary School | 2076 | | | 207 | 657 | 3,172 | 53 | 80 |
| Cwmglas Primary School | 2077 | | | 288 | 1,025 | 3,554 | 199 | 102 |
| Blaenymaes Primary School | 2082 | | | 180 | 696 | 3,860 | 104 | 76 |
| Trallwn Primary School | 2084 | | | 205 | 816 | 3,986 | 188 | 82 |

| Enw'r Ysgol | Rhif Cyfeirnod swyddogol | agor/cau ysgol C/O | Dyddiad agor/cau | Nifer y disgyblion | CYFRAN O'R GYLLIDEB | | Cyllideb Tybiannol A.A.A. | Cronfeydd nid ISB sy'n syrthio I'r ysgolion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Yr Ysgol £k | Y Disgybl £ | £k | £k |
| Parkland Primary School | 2086 | | | 471 | 1,446 | 3,070 | 176 | 160 |
| Newton Primary School | 2092 | | | 221 | 682 | 3,081 | 20 | 78 |
| Whitestone Primary School | 2095 | | | 155 | 753 | 4,864 | 265 | 49 |
| Hendrefoilan Primary School | 2096 | | | 222 | 703 | 3,159 | 32 | 72 |
| Y.G.G. Bryn-Y-Mor | 2098 | | | 260 | 845 | 3,250 | 92 | 102 |
| Bishopston Primary School | 2105 | | | 290 | 1,028 | 3,549 | 233 | 96 |
| Casllwchwr Primary School | 2108 | | | 209 | 687 | 3,290 | 51 | 77 |
| Cila Primary School | 2109 | | | 130 | 452 | 3,478 | 23 | 52 |
| Craigcefnparc Primary School | 2117 | | | 87 | 382 | 4,404 | 37 | 32 |
| Crwys Primary School | 2120 | | | 175 | 652 | 3,735 | 112 | 62 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre | 2133 | | | 61 | 281 | 4,629 | 19 | 22 |
| Llangyfelach Primary School | 2157 | | | 162 | 551 | 3,400 | 40 | 63 |
| Llanrhidian Primary School | 2159 | | | 112 | 435 | 3,875 | 18 | 39 |
| Penclawdd Primary School | 2167 | | | 158 | 545 | 3,455 | 28 | 56 |
| Pengelli Primary School | 2172 | | | 73 | 350 | 4,822 | 19 | 23 |
| Penllergaer Primary School | 2174 | | | 347 | 1,281 | 3,695 | 319 | 131 |
| Penyrheol Primary School | 2176 | | | 195 | 700 | 3,586 | 94 | 62 |
| Pontarddulais Primary School | 2186 | | | 409 | 1,278 | 3,127 | 159 | 154 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Bryniago | 2189 | | | 208 | 708 | 3,396 | 50 | 88 |
| Pontlliw Primary School | 2192 | | | 183 | 609 | 3,326 | 34 | 63 |
| Tre Uchaf Primary School | 2211 | | | 182 | 785 | 4,316 | 232 | 65 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin | 2212 | | | 460 | 1,230 | 2,673 | 64 | 196 |
| Craigfelen Primary School | 2215 | | | 125 | 537 | 4,290 | 92 | 53 |
| Pennard Primary School | 2216 | | | 206 | 637 | 3,091 | 23 | 76 |
| Knelston Primary School | 2217 | | | 119 | 444 | 3,746 | 29 | 40 |
| Pen-y-Fro Primary | 2219 | | | 143 | 534 | 3,722 | 65 | 51 |
| Pontybrenin Primary School | 2223 | | | 304 | 893 | 2,938 | 60 | 112 |
| Talycopa Primary School | 2225 | | | 208 | 683 | 3,289 | 59 | 75 |
| Glyncollen Primary School | 2226 | | | 221 | 697 | 3,158 | 60 | 80 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach | 2229 | | | 229 | 728 | 3,172 | 45 | 88 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw | 2231 | | | 438 | 1,276 | 2,915 | 97 | 174 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen | 2232 | | | 248 | 806 | 3,246 | 75 | 94 |
| Gors Community Primary School | 2233 | | | 246 | 857 | 3,487 | 115 | 102 |
| Sea View Community Primary School | 2234 | | | 131 | 597 | 4,577 | 112 | 52 |

| Enw'r Ysgol | Rhif Cyfeirnod swyddogol | agor/cau ysgol C/O | Dyddiad agor/cau | Nifer y disgyblion | CYFRAN O'R GYLLIDEB | | Cyllideb Tybiannol A.A.A. | Cronfeydd nid ISB sy'n syrthio I'r ysgolion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Yr Ysgol £k | Y Disgybl £ | £k | £k |
| YGG Llwynderw | 2235 | | | 265 | 793 | 2,997 | 25 | 110 |
| Birchgrove Primary | 2236 | | | 402 | 1,240 | 3,084 | 125 | 148 |
| Dunvant Primary School | 2237 | | | 317 | 1,012 | 3,188 | 84 | 100 |
| Gwyrosydd Primary School | 2238 | | | 399 | 1,397 | 3,499 | 277 | 147 |
| St Thomas Community Primary School | 2239 | | | 325 | 1,002 | 3,089 | 97 | 124 |
| Gowerton Primary School | 2240 | | | 322 | 1,077 | 3,342 | 78 | 114 |
| Pentre’r Graig Primary School | 2241 | | | 349 | 1,151 | 3,298 | 105 | 130 |
| YGG Tan-y-lan | 2242 | | | 57 | 325 | 5,677 | 15 | 47 |
| Burlais Primary School | 2243 | | | 549 | 2,004 | 3,648 | 473 | 191 |
| Clydach Primary School | 2244 | | | 213 | 819 | 3,847 | 99 | 61 |
| Ysgol Gymraeg y Cwm | 2245 | | | 19 | 303 | 15,824 | 12 | 18 |
| Gorseinon Primary School | 2246 | | | 348 | 1,238 | 3,560 | 131 | 132 |
| St David's Catholic Primary School | 3303 | | | 213 | 692 | 3,249 | 48 | 78 |
| St Illtyd's R.C. Primary School | 3305 | | | 228 | 784 | 3,435 | 107 | 84 |
| Christchurch (C.I.W.) Voluntary Aided School | 3306 | | | 134 | 493 | 3,680 | 59 | 56 |
| St Josephs Catholic Primary School | 3308 | | | 212 | 682 | 3,214 | 36 | 73 |
| St Joseph's Cathedral Primary School | 3309 | | | 579 | 1,734 | 2,993 | 154 | 173 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **(10) Cyfansymiau/cyfartaledd ysgolion cynradd** | **19,524** | **67,464** | **3,456** | **9,272** | **7,179** |

**S52 DATGANIAD CYLLIDEB ADDYSG** Blwyddyn: 2013-14 ENW AALI: Dinas a Sir Abertawe COD AALI: 670

| (1) | (2) | (3) | (4) | (5) | (6) | (7) | (8) | (9) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | **Rhif Cyfeirnod swyddogol** | **agor/cau ysgol C/O** | **Dyddiad agor/cau** | **Nifer y disgyblion** | **CYFRAN O'R GYLLIDEB** | | **Cyllideb Tybiannol A.A.A.** | **Cronfeydd nid ISB sy'n syrthio I'r ysgolion** |
| | | | | | **Yr Ysgol £k** | **Y Disgybl £** | **£k** | **£k** |
| **Ysgolion uwchradd** | | | | | | | | |
| Cefn Hengoed Community School | 4031 | | | 652 | 3,326 | 5,101 | 512 | |
| Olchfa School | 4032 | | | 1,868 | 7,636 | 4,087 | 433 | |
| Morriston Comprehensive School | 4033 | | | 1,128 | 5,139 | 4,555 | 612 | |
| Pentrehafod School | 4043 | | | 990 | 4,746 | 4,794 | 857 | |
| Bishop Gore School | 4044 | | | 1,040 | 4,898 | 4,709 | 546 | |
| Penyrheol Comprehensive School | 4062 | | | 937 | 4,308 | 4,598 | 409 | |
| Gowerton School | 4063 | | | 1,135 | 5,048 | 4,450 | 564 | |
| Bishopston Comprehensive School | 4069 | | | 1,102 | 4,576 | 4,151 | 418 | |
| Pontarddulais Comprehensive School | 4072 | | | 804 | 3,653 | 4,541 | 429 | |
| Ysgol Gyfun Gwyr | 4074 | | | 747 | 3,405 | 4,557 | 244 | |
| Birchgrove Comprehensive School | 4075 | | | 665 | 3,284 | 4,941 | 512 | |
| Dylan Thomas Community School | 4076 | | | 574 | 3,454 | 6,016 | 911 | |
| Ysgol Gyfun Bryn Tawe | 4078 | | | 743 | 3,472 | 4,673 | 251 | |
| Bishop Vaughan R.C. School | 4600 | | | 1,451 | 5,919 | 4,079 | 357 | |
| **(11) Cyfanswm/cyfartaledd ysgolion uwchradd** | | | | **13,837** | **62,866** | **4,543** | **7,056** | **0** |

**S52 DATGANIAD CYLLIDEB ADDYSG** Blwyddyn: 2013-14 ENW AALI: Dinas a Sir Abertawe COD AALI: 670

| (1) | (2) | (3) | (4) | (5) | (6) | (7) | (8) | (9) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | **Rhif Cyfeirnod swyddogol** | **agor/cau ysgol C/O** | **Dyddiad agor/cau** | **Nifer y disgyblion** | **CYFRAN O'R GYLLIDEB** | | **Cyllideb Tybiannol A.A.A. £k** | **Cronfeydd nid ISB sy'n syrthio I'r ysgolion £k** |
| | | | | | **Yr Ysgol £k** | **Y Disgybl £** | | |
| **Ysgolion arbennig** | | | | | | | | |
| Ysgol Pen-y-Bryn | 7000 | | | 118 | 1,897 | 16,074 | | |
| Ysgol Crug Glas | 7008 | | | 50 | 1,181 | 23,614 | | |
| **(12) Cyfanswm/cyfartaledd ysgolion arbennig** | | | | **168** | **3,077** | **18,318** | **0** | **0** |
| **(13) Cyfanswm pob ysgol** | | | | **33,529** | **133,408** | **3,979** | **16,328** | **7,179** |

## EITEMAU MEMORANDWM

**(14) CYU LEB EU DYRANNU**

| | |
|---|---|
| Meithrin | |
| Cynradd | 150 |
| Uwchradd | 150 |
| Arbennig | |
| **Cyfanswm** | **300** |

**(15) CRONFEYDD NAD SY'N CYU LEB EU DYRANNU**

| | |
|---|---|
| Methrin | |
| Cynradd | 3,713 |
| Uwchradd | 4,412 |
| Arbennig | 223 |
| **Cyfanswm** | **8,348** |

**(16) CYFANSWM CYU** **133,708**

| S52 Datganiad Cyllideb Addysg | | | Tabl 2: Ffactorau Ariannu | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | AALl | Tabl Fersiwn Rhif | AALl Rhif | Dyddiad Cwblhau |
| 2013/14 | Dinas a Sir Abertawe | 1 | 670 | 31/03/2013 |

CYLLIDEB YSGOLION UNIGOL - FFACTORAU ARIANNU

**YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD**

## Ariannu ar Sail Disgyblion

| Math ac enw'r ffactor | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Nifer y Disgyblion/ Lleoedd | Arian a Ddyrannwyd | % o Gyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| ARIANNU SEILIEDIG AR OED | | | | | |
| **Prif ffrwd** | Meithrin (call) | £3,269 | 1,674.67 | £5,475,162 | |
| | Derbyn | £2,759 | 2,602.83 | £7,181,668 | |
| | Blwyddyn 1 | £2,441 | 2,663.42 | £6,500,806 | |
| | Blwyddyn 2 | £2,441 | 2,537.83 | £6,194,286 | |
| | Blwyddyn 3 | £2,403 | 2,474.58 | £5,945,911 | |
| | Blwyddyn 4 | £2,403 | 2,437.75 | £5,857,409 | |
| | Blwyddyn 5 | £2,403 | 2,474.42 | £5,945,511 | |
| | Blwyddyn 6 | £2,479 | 2,445.67 | £6,061,660 | |
| | Blwyddyn 7 | £3,253 | 2,336.25 | £7,600,636 | |
| | Blwyddyn 8 | £3,253 | 2,387.00 | £7,765,743 | |
| | Blwyddyn 9 | £3,253 | 2,404.75 | £7,823,490 | |
| | Blwyddyn 10 | £3,418 | 2,422.25 | £8,279,650 | |
| | Blwyddyn 11 | £3,491 | 2,556.75 | £8,924,403 | |
| | Blwyddyn 12 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 13 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | | Cynradd | 19,311.17 | £49,162,412 | |
| | | Uwchradd | 12,107.00 | £40,393,923 | |
| | | Cyfanswm | 31,418.17 | £89,556,335 | 68.71% |

| Math ac enw'r ffactor | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Nifer y Disgyblion/ Lleoedd | Arian a Ddyrannwyd | % o Gyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion AAA â datganiadau** | | | | | |
| Band CS | Meithrin (call) | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Derbyn | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 1 | £4,676 | 1.17 | £5,455 | |
| | Blwyddyn 2 | £4,676 | 0.83 | £3,896 | |
| | Blwyddyn 3 | £4,676 | 1.58 | £7,403 | |
| | Blwyddyn 4 | £4,676 | 1.42 | £6,624 | |
| | Blwyddyn 5 | £4,676 | 6.17 | £28,832 | |
| | Blwyddyn 6 | £4,676 | 9.92 | £46,366 | |
| | Blwyddyn 7 | £2,546 | 4.00 | £10,183 | |
| | Blwyddyn 8 | £2,546 | 6.50 | £16,547 | |
| | Blwyddyn 9 | £2,546 | 9.17 | £23,335 | |
| | Blwyddyn 10 | £2,572 | 8.83 | £22,716 | |
| | Blwyddyn 11 | £2,572 | 12.50 | £32,146 | |
| | Blwyddyn 12 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 13 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | | Cynradd | 21.08 | £98,576 | |
| | | Uwchradd | 41.00 | £104,926 | |
| | | Cyfanswm | 62.08 | £203,502 | 0.16% |

| Math ac enw'r ffactor | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Nifer y Disgyblion/ Lleoedd | Arian a Ddyrannwyd | % o Gyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion AAA heb ddatganiadau** | | | | | |
| Band A | Meithrin (call) | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Derbyn | £465 | 326.50 | £151,771 | |
| | Blwyddyn 1 | £466 | 329.50 | £153,393 | |
| | Blwyddyn 2 | £466 | 326.50 | £151,996 | |
| | Blwyddyn 3 | £466 | 323.25 | £150,483 | |
| | Blwyddyn 4 | £466 | 297.33 | £138,418 | |
| | Blwyddyn 5 | £466 | 280.08 | £130,388 | |
| | Blwyddyn 6 | £466 | 265.25 | £123,482 | |
| | Blwyddyn 7 | £324 | 237.00 | £76,841 | |
| | Blwyddyn 8 | £324 | 237.00 | £76,841 | |
| | Blwyddyn 9 | £324 | 237.00 | £76,841 | |
| | Blwyddyn 10 | £328 | 237.00 | £77,628 | |
| | Blwyddyn 11 | £328 | 237.00 | £77,628 | |
| | Blwyddyn 12 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 13 | £0 | 0.00 | £0 | |
| Band B | Meithrin (call) | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Derbyn | £1,433 | 100.50 | £144,066 | |
| | Blwyddyn 1 | £1,437 | 101.50 | £145,833 | |
| | Blwyddyn 2 | £1,437 | 100.50 | £144,396 | |
| | Blwyddyn 3 | £1,437 | 111.08 | £159,602 | |
| | Blwyddyn 4 | £1,437 | 116.42 | £167,265 | |
| | Blwyddyn 5 | £1,437 | 104.58 | £150,263 | |
| | Blwyddyn 6 | £1,437 | 88.67 | £127,394 | |
| | Blwyddyn 7 | £1,754 | 123.00 | £215,706 | |
| | Blwyddyn 8 | £1,754 | 129.67 | £227,397 | |
| | Blwyddyn 9 | £1,754 | 136.50 | £239,380 | |
| | Blwyddyn 10 | £1,772 | 134.67 | £238,584 | |
| | Blwyddyn 11 | £1,772 | 130.33 | £230,907 | |
| | Blwyddyn 12 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 13 | £0 | 0.00 | £0 | |
| Band C | Meithrin (call) | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Derbyn | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 1 | £4,584 | 29.92 | £137,126 | |
| | Blwyddyn 2 | £4,584 | 29.08 | £133,307 | |
| | Blwyddyn 3 | £4,584 | 33.25 | £152,405 | |
| | Blwyddyn 4 | £4,584 | 36.67 | £168,066 | |
| | Blwyddyn 5 | £4,584 | 39.83 | £182,580 | |
| | Blwyddyn 6 | £4,584 | 41.00 | £187,928 | |
| | Blwyddyn 7 | £2,553 | 39.58 | £101,054 | |
| | Blwyddyn 8 | £2,553 | 32.33 | £82,545 | |
| | Blwyddyn 9 | £2,553 | 26.33 | £67,227 | |
| | Blwyddyn 10 | £2,579 | 26.83 | £69,195 | |
| | Blwyddyn 11 | £2,579 | 21.00 | £54,152 | |
| | Blwyddyn 12 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | Blwyddyn 13 | £0 | 0.00 | £0 | |
| | | Cynradd | 3,081.42 | £3,000,162 | |
| | | Uwchradd | 1,985.25 | £1,911,925 | |
| | | Cyfanswm | 5,066.67 | £4,912,087 | 3.77% |

| Math ac enw'r ffactor | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Nifer y Disgyblion/ Lleoedd | Arian a ddyrannwyd | % o Gyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|

**AAA - Arian yn ôl Lleoedd - cymerir fel amodol ar Ddisgyblion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | Band E | £10,237 | 207.50 | £2,124,088 | |
| | Band F | £11,915 | 46.00 | £548,085 | |
| | Band G | £18,626 | 22.00 | £409,781 | |
| Uwchradd | Band E | £10,172 | 169.83 | £1,727,464 | |
| | Band F | £11,390 | 62.00 | £706,169 | |
| | Band G | £16,938 | 10.00 | £169,380 | |
| | | Cynradd | 275.50 | £3,081,954 | |
| | | Uwchradd | 241.83 | £2,603,013 | |
| | | Cyfanswm | 517.33 | £5,684,967 | 4.36% |

| | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Pwysoli* | Arian a ddyrannwyd | |
|---|---|---|---|---|---|

**Cyllideb Anghenion Difrifol a Chymhleth - Arian wedi'i seilio ar Ddisgyblion**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynradd | £52 | 35,612.69 | £1,842,043 | |
| | Uwchradd | £52 | 22,154.60 | £1,145,932 | |
| | | Cynradd | 35,612.69 | £1,842,043 | |
| | | Uwchradd | 22,154.60 | £1,145,932 | |
| | Cyfanswm | | | | |
| | | Cyfanswm | 57,767.29 | £2,987,975 | 2.89% |

* where NOR = 1, FSM = 2, WIMD = 1, lowest incidence pupils = 4

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM YR ARIAN A GYMERIR FEL AMODOL AR DDISGYBLION** | Cynradd | 19,586.67 | £57,185,147 | 84.76% |
| | Uwchradd | 12,348.83 | £46,159,720 | 73.43% |
| | Cyfanswm | 31,935.50 | £103,344,867 | 79.29% |

## Arian Arall

| Math ac enw'r ffactor | Gwerth Uned £ | Lluosogydd | Arian a Ddyrannwyd | % o Gyllidebau Cynradd ac Uwchradd |
|---|---|---|---|---|
| **Ffactorau Safle Benodol** | | | | |
| Swm sylweddol i'r adeiladau - Cynradd | £29.15 | 1,805.1 | £52,618 | |
| Swm sylweddol i'r adeiladau - Uwchradd | £7,993.57 | 14 | £111,910 | |
| Ardal sy'n Weddill - Cynradd | £29.15 | 20,397 | £594,554 | |
| Ardal sy'n Weddill - Uwchradd | £29.89 | 28,699 | £857,777 | |
| Pyllau Nofio - Cynradd | | 1 | £10,712 | |
| Pyllau Nofio - Uwchradd | | 5 | £138,845 | |
| Trethi - Cynradd | | | £892,031 | |
| Trethi - Uwchradd | | | £1,095,785 | |
| Dau Safle - Cynradd | | | £195,923 | |
| Dau Safle - Uwchradd | | | £0 | |
| | | Cynradd | £1,745,838 | |
| | | Uwchradd | £2,204,317 | |
| | | Cyfanswm | £3,950,155 | |
| **Ffactorau Penodol i'r Ysgol** | | | | |
| Diogelu'r Cwricwlwm - Cynradd | £50,268 | 79.20 | £3,981,095 | |
| Diogelu'r Cwricwlwm - Uwchradd | £45,554 | 56.548 | £2,576,007 | |
| Ailfodelo'r Gweithlu - Cynradd | | | £305,952 | |
| Ailfodelu'r Gweithlu - Uwchradd | | | £91,985 | |
| Tâl y Pen mewn Ysgol Fach - Cynradd | | | £15,807 | |
| Tâl y Pen mewn Ysgol Fach - Uwchradd | | | £324,349 | |
| Tâl y Pen - Cymraeg - Cynradd | | 9 | £22,283 | |
| Tâl y Pen - Cymraeg - Uwchradd | | 2 | £7,264 | |
| Tanwydd i'r Gegin - Cynradd | | | £308,370 | |
| Tanwydd i'r Gegin - Uwchradd | | | £364,552 | |
| Salwch Tymor Hir - Cynradd | | | £73,745 | |
| Salwch Tymor Hir - Uwchradd | | | £42,519 | |
| Diogelu Cyflogau - Cynradd | | | £63,881 | |
| Diogelu Cyflogau - Uwchradd | | | £106,384 | |
| Uwchradd APT&C | £106,116 | 15 | £1,591,742 | |
| Cyllideb Anghenion Difrifol a Chymhleth - Cynradd | | | £1,788,679 | |
| Cyllideb Anghenion Difrifol a Chymhleth - Uwchradd | | | £1,199,294 | |
| Ariannu Ysgol Newydd - Cynradd | | 2 | £280,421 | |
| Ariannu Ysgol Newydd - Uwchradd | | | £0 | |
| CLGau - Cynradd | | | £1,544,028 | |
| CLGau - Uwchradd | | | £1,908,121 | |
| Sicrwydd Nifer yn Lleihau - Uwchradd | | | £0 | |
| Uwchradd AAA | | | £218,000 | |
| Ysgol Fach - Clercol - Cynradd | £13,960 | 0.813 | £11,354 | |
| Ysgol Fach-Gweinyddes Feithrin-Cynradd | £20,155 | 6.834 | £137,746 | |
| | | Cynradd | £8,533,362 | |
| | | Uwchradd | £8,430,217 | |
| | | Cyfanswm | £16,963,579 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TOTAL FUNDS AVAILABLE TO MAINSTREAM SCHOOLS PRIOR TO ELWa FUNDING** | Cynradd | £67,464,347 | |
| | Uwchradd | £56,794,254 | |
| | Cyfanswm | £124,258,601 | 95.34% |
| **Cyllid AAA Ôl-16 Prif Ffrwd** | | | |
| **Prif ffrwd - uwchradd** | | £6,071,587 | 4.83% |
| **CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I YSGOLION PRIF FFRWD** | Cynradd | £67,464,347 | |
| | Uwchradd | £62,865,841 | |
| | Cyfanswm | £130,330,188 | 100.00% |

## YSGOLION ARBENNIG

| Math ac enw'r ffactor | Ystod neu Lefel | Gwerth Uned £ | Nifer y disgyblion / lleoedd | Arian a ddyrannwyd |
|---|---|---|---|---|

### Arian wedi'i seilio ar Leoedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Band E | £9,960 | 85 | £846,576 |
| | Band G | £18,973 | 83.0 | £1,574,738 |
| | Band H | £0 | 0 | £0 |
| | | Cyfanswm | 168 | £2,421,315 |

### Arian wedi'i seilio ar Ddisgyblion

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Meithrin (call) | £441.34 | 1.83 | £809.13 |
| | Derbyn | £441.34 | 2.83 | £1,250.47 |
| | Blwyddyn 1 | £441.34 | 5.50 | £2,427.39 |
| | Blwyddyn 2 | £441.34 | 2.83 | £1,250.47 |
| | Blwyddyn 3 | £441.34 | 2.33 | £1,029.80 |
| | Blwyddyn 4 | £441.34 | 2.08 | £919.47 |
| | Blwyddyn 5 | £441.34 | 5.00 | £2,206.72 |
| | Blwyddyn 6 | £441.34 | 6.67 | £2,942.29 |
| | Blwyddyn 7 | £475.29 | 21.17 | £10,060.36 |
| | Blwyddyn 8 | £443.43 | 12.58 | £5,579.78 |
| | Blwyddyn 9 | £463.12 | 15.75 | £7,294.08 |
| | Blwyddyn 10 | £536.35 | 17.67 | £9,475.44 |
| | Blwyddyn 11 | £523.65 | 18.00 | £9,425.78 |
| | Blwyddyn 12 | £643.85 | 21.25 | £13,681.86 |
| | Blwyddyn 13 | £677.58 | 12.67 | £8,582.74 |
| | Blwyddyn 14 | £612.73 | 14.25 | £8,731.36 |
| | | Cyfanswm | 162 | £85,667 |

### Ffactorau Safle Benodol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swm Sylweddol Adeiladau | | £3,950 | 2 | £7,900 |
| Ardal sy'n Weddill | | £26.73 | 733.77 | £19,615 |
| Pwll Nofio | | £24,713 | 1 | £24,713 |
| | | Cyfanswm | | £52,228 |

| Math ac enw'r ffactor | Gwerth Uned £ | Nifer y disgyblion / lleoedd | Arian a ddyrannwyd |
|---|---|---|---|

**Ffactorau Ysgol Benodol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diogelu'r Cwricwlwm | £49,809 | 2 | £99,618 |
| Tâl y Pen - Ysgol Fach | | | £91 |
| Ailfodelu'r Gweithlu | | | £8,717 |
| Threshold | | | £0 |
| Tanwydd Cegin | | 2 | £5,354 |
| Cludiant | | 2 | £4,254 |
| Salwch Tymor Hir | | | £95,228 |
| Diogelu Cyflogau | | | £7,980 |
| CLGau | | | £40,139 |
| Costau Preswyl | £256,818 | 1 | £256,818 |
| Nyrs Ysgol | £0 | 1 | £0 |
| | Cyfanswm | | £518,199 |

**CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I YSGOLION ARBENNIG** £3,077,409

**CYFANSWM YR ARIAN SYDD AR GAEL I BOB YSGOL** £133,407,597

## Llunio Cyfrannau Cyllidebau Ysgolion

Sylwer ar y pwyntiau canlynol:-

- Rhestrir y gwahanol elfennau ar ochr chwith cyfran y gyllideb
- Mae'r holl gyflogau'n cynnwys argostau.
- Defnyddir dwy set o ddata a chyfrifiadau:

  (i) Mis Ebrill i fis Awst

  (ii) Mis Medi i fis Mawrth

Mae hyn oherwydd bod y flwyddyn ysgol o fis Medi i fis Awst a'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod y fformiwla'n cyfrifo drwy ddefnyddio nifer y disgyblion, mae'n rhaid defnyddio nifer y disgyblion ym mis Ebrill a nifer y disgyblion newydd ym mis Medi i gyfrifo hawliad yr ysgol.

# <u>CYFRADD Y GYLLIDEB GYNRADD</u>

## ELFEN YSGOL (Llinellau 1-4)

Dyma'r data am yr ysgol. Mae'n rhestru eitemau a fydd yn cael eu defnyddio yng nghyfrifiad go iawn cyfran gyllideb yr ysgol. Rhaid i'r ysgolion wirio'r rhain i sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddir yn gywir.

<u>Llinell</u> <u>Disgrifiad</u>

1. Arwynebedd llawr gros adeiladau'r ysgol (yn seiliedig ar y gwaith ail fesur ysgolion a gyflawnwyd yn ddiweddar).

2. Ffactor mwy nag un safle. Pan fydd dosbarth addysgu neu neuadd ginio wedi'i gwahanu o brif adeilad yr ysgol gan ffordd gyhoeddus. Os yw'r ardal ar wahân yn ddosbarth addysgu, gwelir "1" yn y llinell hon. Os yw'r ardal ar wahân yn neuadd ginio, gwelir "0.5". Os yw ysgol wedi'i rhannu rhwng 3 safle, gwelir "2".

3. Mae "1" yn y llinell hon yn nodi bod yr ysgol yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Mae'r llinell hon yn dangos canran y plant y mae hawl ganddynt i brydau ysgol am ddim fel y nodwyd ar y datganiad PLASC.

## ELFEN DISGYBLION (Llinellau 5 - 16)

5. Mae hyn yn nodi nifer y lleoedd yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA), os oes gan yr ysgol un, yn ôl yr hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor. Os yw nifer y plant yn y CAA, mewn amgylchiadau eithriadol, yn fwy na'r lleoedd cynlluniedig arfaethedig ar y datganiad PLASC dilynol ar ôl derbyn disgyblion **gan yr AALl**, gwneir addasiad diwedd blwyddyn ôl-weithredol ar gyfer y cyfnod o fis Medi i fis Mawrth.

6–14. Nifer y disgyblion ym mhob grŵp oedran.

Mae niferoedd prif ffrwd mis Ebrill fel y'u nodwyd ar y datganiad PLASC (a addaswyd ar gyfer gwaharddiadau a derbyn disgyblion a waharddwyd rhwng dyddiad y cyfrifiad a dyddiad cyhoeddi cyfran y gyllideb). Amcangyfrif yr ysgol yw nifer Meithrin mis Ebrill, sef nifer y plant 3 oed disgwyliedig ar y gofrestr yn ail wythnos tymor yr haf. Gwneir hyn oherwydd bod yr ALl yn ariannu disgyblion meithrin am uchafswm o 4 tymor gan ddibynnu ar bryd bydd y plentyn yn 3 oed. Mae brasamcan nifer y Meithrin yn cael ei ddiweddaru pan fydd y gwir ffigurau'n hysbys yn ystod ail wythnos tymor yr haf.

Mae nifer y disgyblion prif ffrwd ar gyfer mis Medi'n cario ymlaen y nifer ar y gofrestr ym mis Ebrill, ar wahân i'r meithrin a'r derbyn sy'n cael eu hamcangyfrif gan yr ysgol. Unwaith eto, gwneir addasiad ar ddiwedd y flwyddyn pan fydd y datganiad PLASC dilynol yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru nifer y disgyblion prif ffrwd mis Medi tan fis Mawrth (unwaith eto wedi'i addasu ar gyfer gwaharddiadau). Mae nifer y disgyblion mewn bandiau AAA yn seiliedig ar yr Arolwg AAA blynyddol. Ar gyfer band C ac CS, mae ariannu athro ac arian y pen yn dilyn plentyn pan fydd yn newid ysgol neu pan fydd lefel y gefnogaeth addysgu'n newid. Mae'r arian yn cael ei gredydu/ddebydu o dan ddull ar wahân i gyfrifiad cyfran y gyllideb. Nid yw arian yn symud ar gyfer unrhyw fandiau eraill neu ddisgyblion CAA. Darperir ffigurau disgyblion CAA gan y Tîm Seicoleg Addysg ac Asesu Ffurfiol (EPFAT) ac mae ffigurau mis Medi'n cael eu diweddaru yn y mis Ionawr canlynol.

Pan fydd ysgol yn cau, diogelir niferoedd disgyblion yr ysgolion derbyn a enwir am y flwyddyn academaidd gyntaf.

15. Mae hyn yn rhoi cyfanswm nifer y disgyblion yn yr ysgol (cyfwerth amser llawn) ac eithrio'r disgyblion meithrin sy’n codi’n 3 oed a welir yn llinell 6.

16. Mae hyn yn rhoi cyfanswm nifer y disgyblion yn yr ysgol (cyfwerth amser llawn) ar gyfer mis Ionawr, sy'n cynnwys y disgyblion meithrin sy’n codi’n 3 oed, a welir yn llinell 6.

**ELFEN ADDYSGU (Llinellau 17 - 24)**

17. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

18-19. Ceir nifer tybiannol athrawon drwy luosi nifer y plant prif ffrwd (CALl) ym mhob grŵp blwyddyn â’r ffactor perthnasol (gweler yr Atodiad am yr holl ffactorau). Dyrennir athrawon ar gyfer bandiau AAA yn unol â’r Ddogfen Bolisi AAA – er enghraifft, mae disgyblion Band CS yn derbyn arian ar gyfer yr hanner awr y dydd gofynnol o gefnogaeth addysgu a fydd yn cael ei chynnwys yn eu Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

20. Mae’r ychwanegiad ysgol fach hwn yn sicrhau y ceir ychwanegiad i’r staffio, nad yw’n dibynnu ar nifer y disgyblion, er mwyn diogelu cyllid ysgolion llai. Mae hyn yn cael ei gyfrifo drwy roi 1.6 athro i bob ysgol a lleihau hyn yn ôl CALl yr ysgol wedi’i luosi â 0.0025.

21. Ffactor Amddifadedd Cymdeithasol Mae’r llinell hon yn ceisio rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac mae’n seiliedig ar ganran y plant y mae hawl ganddynt i brydau ysgol am ddim. Lluosir canran prydau ysgol am ddim yn llinell 4 â chyfanswm llinellau 18 i 20 yna’i luosi â 0.000553.

22. Cyfansymiau Athrawon. Cyfanswm llinellau 18 i 21.

23. Defnyddir cyflog cyfartalog unigol pob ysgol ar gyfer plant prif ffrwd a band AAA ym mhob ysgol. Mae hyn yn cynnwys yr holl athrawon parhaol a thros dro amser llawn a rhan-amser a gofnodwyd ar gyflogres mis Ionawr (mae pwyntiau cyflog islaw M6 yn parhau ar gyfer y cyfnod o fis Medi tan fis Mawrth). Mae trothwy’n cael ei gynnwys yng nghostau go iawn cyfrifiad cyflog cyfartalog yn ôl cyflogres mis Ionawr ac mae’n cynnwys URG1, URG2 ac URG3. Mae amcangyfrif yn cael ei gynnwys ar gyfer mis Medi’n seiliedig ar gymhwyster symud i’r Uwch Raddfa Gyflog. Mae’r Swyddogion Cefnogi Cynradd yn cynghori ynghylch unrhyw newidiadau hysbys ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod - er enghraifft, os bydd athro yn ymddeol neu os yw cytundeb dros dro’n dod i ben ym mis Awst. Mae pob ysgol yn cael ei hariannu ar gyfer un Pennaeth ac un Dirprwy Bennaeth. Nid yw Dirprwy Benaethiaid ychwanegol na Phenaethiaid Cynorthwyol yn cael eu hariannu, oherwydd penderfyniad ysgolion unigol yw cael y swyddi hyn ai peidio. Mae’r staff yn cael eu cynnwys yng nghyfrifiad cyflog cyfartalog ar y pwynt cyflog, gan gynnwys y raddfa gyflog uwch, y byddent wedi’i dderbyn cyn eu penodi’n Ddirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol.

24. Dyrennir pwyntiau ariannu Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid yn unol â chyfanswm yr uned a gyfrifir ar gyfer pob ysgol. Mae cyfanswm yr uned yn seiliedig ar y nifer ar y gofrestr ym mis Ionawr lle mae pob plentyn prif ffrwd yn derbyn 7 uned a phob plentyn â

Datganiad o Angen Addysgol Arbennig (AAA) yn derbyn 10 uned.

| **Cyfanswm Uned** | **Pwynt Ariannu Penaethiaid** | **Pwynt Ariannu Dirprwy Benaethiaid** |
|---|---|---|
| 0-500 | 15 | 9 |
| 501-750 | 16 | 10 |
| 751-1300 | 17 | 11 |
| 1301-1600 | 18 | 12 |
| 1601-1900 | 19 | 13 |
| 1901-2525 | 20 | 14 |
| 2526-2850 | 21 | 15 |
| 2851-3175 | 22 | 16 |
| 3176-3875 | 23 | 17 |
| 3876-4250 | 24 | 18 |
| 4251-4625 | 25 | 19 |

Rhoddir pwynt ychwanegol i benaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion ag uned CAA ac i ysgolion â dosbarthiadau ar fwy nag un safle. Rhoddir dau bwynt ychwanegol i ysgolion ag uned CAA yn ogystal â dosbarthiadau ar fwy nag un safle.

Mae pwyntiau ariannu Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid yn cael eu rhewi ar y lefelau cyfredol oni bai bod penodiadau newydd yn cael eu gwneud neu'r grwpiau'n cael eu newid.

Mae swm yn cael ei gynnwys yn y cyflog cyfartalog ar gyfer Lwfansau Rheoli/Pwyntiau Cyfrifoldeb Dysgu ac Addysgu yn ôl lefel fformiwla yn hytrach na'r gwir gost. Mae'r swm yn seiliedig ar ddyraniad fformiwla athrawon yng nghyfran gyllideb y flwyddyn flaenorol.

| **Fformiwla Athrawon (ac eithrio CAA)** | **Swm sy'n cael ei gynnwys** |
|---|---|
| <4.5 | £0 |
| 4.5 | £1,993 |
| 5.5 | £3,985 |
| 6.5 | £5,978 |
| 7.5 | £7,970 |
| 8.5 | £9,963 |
| 9.5 | £11,955 |
| 10.5 | £13,948 |
| 11,5 | £15,940 |
| 12.5 | £17,933 |
| 13.5 | £19,926 |
| 14.5 | £21,918 |
| 15.5 | £23,911 |
| 16.5 | £25,903 |
| 17.5 | £27,896 |
| 18.5 | £29,888 |
| 19.5 | £31,881 |
| 20.5 | £33,874 |
| 21.5 | £35,866 |

| | |
|---|---|
| 22.5 | £37,859 |
| 23.5 | £39,851 |

Caiff CAA eu cyfrifo'n ôl cyflog cyfartalog athrawon yr uned unigol sy'n seiliedig ar yr holl athrawon sydd ar gyflogres mis Ionawr, gan gynnwys trothwy.

Cyfrifir cyllid athrawon drwy luosi nifer tybiannol yr athrawon yn llinell 22 â chyflog cyfartalog athrawon yn llinell 23.

**ELFEN STAFF CYSYLLTIOL (Llinellau 25 - 35)**

25. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

26. Cyfrifir nifer tybiannol y Gweinyddesau Meithrin drwy luosi nifer y plant meithrin â 0.024 a phlant derbyn â 0.0121. Dyrennir gweinyddesau meithrin tybiannol ar gyfer bandiau CAA yn unol â'r Ddogfen Bolisi AAA yn ogystal â dyraniad ychwanegol i adlewyrchu cost cyflog cyflawn staff cefnogi mewn achosion lle mae cyfanswm y lleoedd dynodedig yn fwy na'r pwysoli CAA a argymhellir.

27. Os yw llinell 26 (prif ffrwd) yn cynhyrchu llai nag 1 Weinyddes Feithrin, mae'r llinell hon yn rhoi ychwanegiad er mwyn sicrhau bod o leiaf 1 Weinyddes Feithrin ar gael ym mhob ysgol.

28. Ariennir Gweinyddesau Meithrin ar Bwynt 15 y Raddfa NNEB ar gyfer 32.5 awr yr wythnos. Mae Gweinyddesau Meithrin CAA hefyd yn cael eu hariannu ar gyfer lwfans dosbarth arbennig.

29. Cyfrifir yr arian ar gyfer Gweinyddesau Meithrin drwy luosi cyfanswm llinellau 26 a 27 â'r cyflog yn llinell 28.

30. Cynhyrchir nifer tybiannol y cynorthwywyr clercol drwy luosi CALl disgyblion â 0.004. Rhoddir darpariaeth glercol uwch i'r CAA yn unol â'r ddogfen bolisi AAA.

31. Os yw llinell 30 (prif ffrwd) yn cynhyrchu llai na 0.4 o gynhorthwy-ydd clercol, mae'r llinell hon yn rhoi ychwanegiad er mwyn sicrhau bod 0.4 yn cael ei gynhyrchu.

32. Ariennir cynorthwywyr clercol ar Bwynt 13 y Raddfa Gyflog (pen uchaf Graddfa 2) am 30 awr yr wythnos yn ystod y tymor yn unig.

33. Cyfrifir cyllid clercol drwy luosi swm llinellau 30 a 31 â'r cyflog yn llinell 32.

34. Os oes gan ysgol ardal addysgu neu neuadd ginio sy'n cael ei gwahanu o brif adeilad yr ysgol gan ffordd gyhoeddus a gynhelir, rhoddir cyfandaliad fel y nodir yn yr atodiad. Os yw'r ysgol ar fwy na dau safle sy'n fwy na 0.2 milltir oddi wrth ei gilydd, dylid cynyddu'r dyraniad ar gyfer ysgol ar fwy nag un safle fesul cyflog cyfartalog un athro.

35. Cyfanswm y cyllid ar gyfer staff cysylltiol yw cyfanswm llinellau 29, 33 a 34.

## ELFEN ARIAN Y PEN (Llinellau 36 – 40)

36. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

37. Mae'r ychwanegiad ysgol fach yn diogelu lefel yr ariannu mewn ysgolion â llai na 200 o ddisgyblion prif ffrwd CALl. Mae pob un o'r ysgolion hyn yn cael cyfandaliad sy'n cael ei leihau yn ôl swm fesul plentyn CALl (gweler yr atodiad am y symiau).

38. Cyfrifir y lwfans sylfaenol drwy ddyrannu swm fesul disgybl (nid CALl). Mae'r ffigwr hwn yn cael ei luosi â'r pwysoli yn llinell 36 ar gyfer bandiau AAA.

39. Cydnabyddir bod angen adnoddau yn Gymraeg ac yn Saesneg yn aml mewn ysgolion Cymraeg a chyfrwng Cymraeg. Mae'r lwfans hwn yn cynyddu'r arian y pen sylfaenol yn llinell 38 o 10%.

40. Cyfanswm cyllid arian y pen yw swm llinellau 37, 38 a 39.

## ELFEN ADEILADAU (Llinellau 41 i 47)

41. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

42. Disgyblion:Lleoedd. Mae plant Derbyn i B6 yn cyfrif fel 1 a disgyblion Meithrin yn cyfrif fel hanner. Mae lleoedd CAA yn cael eu lluosi â'r pwysoli yn llinell 41.

43. Ceir yr arwynebedd disgybl/lle drwy ddyrannu $5^2$m i bob disgybl:lle yn llinell 42.

44. Y ffigur yn y llinell hon yw arwynebedd adeiladau'r ysgol fel yn llinell 1.

45. Yr arwynebedd cyfrifadwy yw hanner cyfanswm llinellau 43 a 44.

46. Mae pob ysgol yn derbyn cyfandaliad adeiladau.

47. Y cyllid ar gyfer adeiladau yw'r arwynebedd cyfrifadwy (llinell 45) wedi'i luosi â swm fesul metr sgwâr. Mae'r cyfandaliad yn llinell 46 hefyd yn cael ei ychwanegu at y cyfrifiad hwn.

## ELFENNAU (Llinellau 48 - 51)

Mae hyn yn cyfrifo'r gwir cyllid y bydd yr ysgol yn ei dderbyn yn y flwyddyn ariannol o 4 elfen y fformiwla.

h.y. $\frac{5}{12}$ o ffigurau ariannu Ebrill-Awst

$\frac{7}{12}$ o ffigurau ariannu Medi-Mawrth

## YCHWANEGIADAU (Llinellau 53 - 62)

53. Pyllau Nofio. Rhoddir swm i adlewyrchu'r costau tanwydd ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw pwll.

54. Tanwydd Cegin. Mae swm yn cael ei gyfrifo'n flynyddol yn seiliedig ar nifer y prydau a baratowyd yn ystod y flwyddyn flaenorol a'r math o danwydd a ddefnyddir yn y gegin.

55. Arian Ysgol Newydd. Yn dilyn ad-drefnu ac uno ysgolion babanod/iau/cynradd, rhoddir swm i'r ysgol newydd sy'n gyfwerth ag 1 athro yn y flwyddyn academaidd gyntaf, dau draean yn yr ail flwyddyn academaidd a thraean yn y drydedd flwyddyn academaidd. Yn ogystal, dylid dyrannu arian ysgol newydd i'r brif ysgol dderbyn a enwir, ar yr un lefel a ddyrennir i ysgolion sy'n uno, h.y. swm sy'n gyfwerth â chyflog athro yn y flwyddyn academaidd gyntaf, dau draean yn yr ail flwyddyn a thraean ym mlwyddyn tri. Ni roddir hyn oni bai bod yr ysgol yn cefnogi proses adleoli'r Awdurdod, gan ddilyn unrhyw gyngor gan yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal, diogelir niferoedd disgyblion yn yr ysgol newydd am flwyddyn gan ddefnyddio'r ffigurau a nodir wrth hysbysebu am Bennaeth yr ysgol.

Pan fydd ysgol yn cau, caiff y fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion sy'n derbyn ei diwygio i adlewyrchu nifer y derbyniadau i bob grŵp blwyddyn ym mis Medi, yn ôl canlyniadau'r arolwg rhieni yn hytrach na chario ffigurau mis Ebrill ymlaen. Ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei adennill o'r brif ysgol dderbyn a enwir yn y cynnig statudol. Sylwer nad yw hyn yn berthnasol i ysgolion sy'n uno.

56. Salwch Tymor Hir. Dyrennir symiau i ysgolion yn unol â nifer y staff addysgu yn fformiwla cyllido'r flwyddyn flaenorol. Mae ysgolion cynradd yn gallu ymuno â Chynllun Yswiriant Cilyddol sy'n cynnwys salwch tymor hir y staff addysgu.

57. Trethi. Yn seiliedig ar symiau gwirioneddol.

58. Diogelu Cyflogau. Mae'n cynnwys cyflogau a ddiogelir. Yn achos 'uno' ysgolion, ni chaiff cyflogau a ddiogelir eu hariannu ar gyfer staff mewn ysgolion olynol os nad oedd y cyflogau hyn yn eu lle o leiaf blwyddyn cyn uno neu cyn cyhoeddi'r cau, oni bai bod cytundeb ymlaen llaw gyda'r Awdurdod.

59. Ailfodelu'r Gweithlu. Dirprwywyd i ysgolion o 1 Ebrill 2004. Dyrennir y gyllideb ar sail pro rata i ysgolion yn ôl nifer yr athrawon.

60. Cyllideb Anghenion Difrifol a Chymhleth. I gefnogi plant ag anghenion difrifol a chymhleth. (Roedd hyn yn cael ei ariannu gynt gan y gyllideb cefnogaeth unigol a adwaenid fel y gyllideb 1:1.) Cyfrifwyd y symiau sydd ar gael i bob ysgol gan ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion yn yr ysgol, canran prydau ysgol am ddim yr ysgol, nifer y disgyblion sy'n cael eu nodi'n MALIC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) a nifer y disgyblion yn yr ysgol â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth. Cyflwynir y fformiwla newydd yn raddol dros 4 blynedd, o'r ffigur alldro ar gyfer 2010/11 (yn 2013/14 mae 50% o'r cyllid yn seiliedig ar y ffigur alldro a 50% ar y fformiwla).

61. CLG. Cyfanswm y symiau a ddirprwywyd ar gyfer CLG unigol (dirprwywyd ar sail nifer y disgyblion, nifer yr athrawon, cyfandaliad neu'r gwir gostau).

62. Cyfanswm llinellau 53 i 61.

**CYFRAN Y GYLLIDEB DERFYNOL (Llinell 63)**

Mae swm yr Elfennau a'r Ychwanegiadau yn rhoi cyfran y gyllideb derfynol.

# CYFRAN Y GYLLIDEB UWCHRADD

## ELFEN YSGOL (Llinellau 1-4)

Llinell Disgrifiad

1. Arwynebedd llawr gros adeiladau'r ysgol (yn seiliedig ar y gwaith ail fesur ysgolion a gyflawnwyd yn ddiweddar)

2. Milltiroedd rhwng safleoedd.

3. % Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r llinell hon yn dangos canran y plant y mae hawl ganddynt i brydau ysgol am ddim fel y nodwyd ar y datganiad PLASC.

4. Cyfrwng Cymraeg. Mae "1" yn y llinell hon yn nodi bod yr ysgol yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## ELFEN DISGYBLION (Llinellau 5 - 15)

6. Mae hyn yn nodi nifer y lleoedd yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA), os oes gan yr ysgol un, yn ôl yr hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor. Os yw nifer y plant yn y CAA, mewn amgylchiadau eithriadol, yn fwy na'r lleoedd cynlluniedig arfaethedig ar y datganiad PLASC dilynol ar ôl derbyn disgyblion **gan yr AALl**, gwneir addasiad diwedd blwyddyn ôl-weithredol ar gyfer y cyfnod o fis Medi i fis Mawrth.

6-15 Fel ar gyfer yr elfen ysgolion cynradd. Amcangyfrifir ffigurau prif ffrwd mis Medi ar gyfer blwyddyn 7 gan yr ysgol. Mae ffigurau band AAA mis Medi blwyddyn 7 ar gyfer Bandiau C ac CS yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg blwyddyn 6 yr ysgolion bwydo cynradd. Mae ffigurau band AAA mis Medi blwyddyn 7 ar gyfer Band B yn seiliedig ar niferoedd go iawn mis Ebrill. Amcangyfrifir holl niferoedd band A uwchradd gan y Tîm Seicoleg ac Asesu Ffurfiol (EPFAT).

Diogelir nifer y disgyblion mewn ysgol uwchradd sydd newydd gael ei huno am dair blynedd academaidd, yn seiliedig ar nifer y disgyblion a nodir wrth hysbysebu am Bennaeth yr ysgol.

## ELFEN ADDYSGU (Llinellau 16 - 25)

16. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

17. Mae'r llinell hon yn diogelu addysgu ar gyfer ysgolion bach. At y diben hwn, ysgol fach yw ysgol â llai na 700 o ddisgyblion prif ffrwd ym mlynyddoedd 7 i 11. Dyrennir 9.6 athro i ysgolion bach, llai swm sy'n gyfwerth â'u disgyblion B7 i B11 wedi'i luosi â 0.0143.

18 a 19. Ceir rhif tybiannol yr athrawon drwy luosi nifer y plant prif ffrwd ym mhob grŵp blwyddyn â'r ffactor perthnasol (gweler yr Atodiad am yr holl ffactorau). Dyrennir athrawon ar gyfer bandiau AAA yn unol â'r Ddogfen Bolisi AAA.

20. Mae gan yr holl ysgolion o leiaf 3.5 athro yn y llinell hon.

21. Mae'r llinell hon yn rhoi ffactor mwy nag un safle os yw'r ysgol ar fwy nag un safle, sy'n amrywio yn ôl y milltiroedd rhwng y safleoedd.

22. Lwfans Amddifadedd Cymdeithasol. Wedi'i seilio ar ganran y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae canran y prydau ysgol am ddim yn llinell 3 yn cael ei lluosi â'r dyraniad o linellau 17 i 19 yna'i lluosi â 0.0000906.

23. Mae'r llinell hon yn nodi cyfanswm yr athrawon a gynhyrchwyd.

24. Cyflog cyfartalog athrawon y sir. Ar gyfer prif ffrwd, caiff hyn ei gyfrifo'n flynyddol gan ddefnyddio cyflogau go iawn yr holl athrawon parhaol amser llawn (caiff y ffigur hwn ei gario ymlaen ym mis Medi os yw islaw M6), gan gynnwys Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol (llai unrhyw lwfans a roddir am CAA neu Fwy nag Un Safle neu unrhyw ddiogelu grŵp). Mae cyflogau CAA yn unigryw i bob ysgol er mwyn sicrhau ariannu niwtral. Caiff trothwy ei gynnwys yng nghostau go iawn y cyfrifiad cyflog cyfartalog yn ôl cyflogres mis Ionawr ac mae'n cynnwys URG1, URG2 ac URG3. Mae amcangyfrif yn cael ei gynnwys ar gyfer mis Medi'n seiliedig ar gymhwyster symud i'r Uwch Raddfa Gyflog.

25. Cyfrifir cyllid athrawon drwy luosi nifer yr athrawon tybiannol yn llinell 23 â chyflog cyfartalog athrawon yn llinell 24.

**ELFEN STAFF CYSYLLTIOL (Llinellau 26 - 32)**

26. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

27. Dyrennir cyfandaliad i bob ysgol.

28. Mae cyfanswm nifer y disgyblion yn yr ysgol yn cael ei luosi â'r pwysoli yn llinell 26 a swm fesul disgybl. Mae CAA yn seiliedig ar nifer y lleoedd yn hytrach na disgyblion.

29. Mae Gweinyddesau Meithrin yn cael eu cynhyrchu ar gyfer CAA. Dyrennir Gweinyddesau Meithrin tybiannol ar gyfer bandiau CAA yn unol â'r Ddogfen Bolisi AAA yn ogystal â dyraniad ychwanegol i adlewyrchu cost cyflog cyflawn ar gyfer staff cefnogi mewn achosion lle mae cyfanswm y lleoedd dynodedig yn fwy na'r pwysoli CAA A argymhellir.

30. Ariennir Gweinyddesau Meithrin ar Bwynt 15 y Raddfa NNEB ar gyfer 32.5 awr yr wythnos yn ogystal â lwfans dosbarth arbennig.

31. Cyfrifir cyllid y Gweinyddesau Meithrin drwy luosi llinell 29 â'r cyflog yn llinell 30.

32. Cyfanswm y cyllid ar gyfer Staff Cysylltiol yw cyfanswm llinellau 27 a 28 a'r cyfansymiau CAA.

**ELFEN ARIAN Y PEN (Llinellau 33 - 42)**

33. Pwysoli ychwanegol a roddir i fandiau AAA.

34-40. Cyfrifir drwy luosi nifer y plant ym mhob grŵp blwyddyn â swm perthnasol arian y pen. Mae ffioedd arholiadau hefyd yn cael eu hychwanegu ym mlynyddoedd 11 i 13. (Mae diogelu ysgolion bach hefyd yn berthnasol sy'n golygu y caiff o leiaf 100 o ddisgyblion eu hariannu mewn unrhyw grŵp blwyddyn o flynyddoedd 7 i 11).

